**CYFARFOD Y CYNGOR** **21ain TACHWEDD 2018**

# RHAGLEN

## DATGAN BUDDIANNAU

**Atgoffir yr Aelodau'n barchus o'r angen i ddatgan buddiannau personol a/neu ragfarnus mewn unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.**

Caplan y Maer i ddechrau'r cyfarfod trwy arwain pawb sy'n bresennol mewn Gweddi.

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau a gyflwynwyd ar ran yr aelodau am absenoldeb.

**2. COFNODION**

Cadarnhau fel cofnod cywir gofnodion cyfarfodydd canlynol y Cyngor a'i Bwyllgorau (copïau'n amgaeëdig):

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfarfod y Cyngor | - | 17eg Hydref 2018 | - | Rhifau Cofnod | 68 - 80 |
| Pwyllgor Cynllunio | - | 17eg Hydref 2018 | - | Rhifau Cofnod | 27 - 29 |
| Pwyllgor Cynllunio | - | 7fed Tachwedd 2018 | - | Rhifau Cofnod | 30 - 32 |

Cadarnhau neu fel arall:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol | - | 7fed Tachwedd 2018 | - | Rhifau Cofnod | 66 - 78 |

**3. CYFLWYNIAD: RHAGLEN NEST LLYWODRAETH CYMRU**

Ymhellach i gofnod rhif 25 cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 4ydd Gorffennaf 2018, croesawu Mr Rick Ward, Rheolwr Datblygu Partneriaeth Rhaglen Nest.

**4. ADRODDIAD Y MAER**

Derbyn manylion y digwyddiadau a fynychwyd gan y Maer a'r Dirprwy Faer dros y mis diwethaf (copi'n amgaeëdig).

**5. AWDURDODI TALIADAU/YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CREDYDWYR CYMERADWY**

Derbyn a phenderfynu ar adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeëdig).

**6. CYFRIFON ARIANNOL HYD AT 30AIN MEDI 2018 AC AMCANESTYNIADAU AR GYFER BLWYDDYN ARIANNOL 2018/19**

Derbyn a chydnabod cyd-adroddiad cynnydd Clerc y Dref a'r Swyddog Cyllid (copi'n amgaeëdig) yn dangos perfformiad o gymharu â'r gyllideb.

7. **AROLWG CYNGOR TREF Y RHYL – RHEOLAU SEFYDLOG**

Ymhellach i gofnod rhif 70 cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 7fed Tachwedd 2018, cymeradwyo'n ffurfiol y Rheolau Sefydlog diwygiedig ar gyfer y Cyngor (copi wedi ei ddosbarthu ymlaen llaw).

8. **EITEMAU ER GWYBODAETH**

Derbyn gwybodaeth gan yr Aelodau ar faterion brys sy'n codi, manylion y rhain a gytunwyd gyda'r Cadeirydd cyn i'r cyfarfod ddechrau.

9. **HOLI AC ATEB**

Derbyn cwestiynau gan aelodau o'r cyhoedd sy'n bresennol.

10. **GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

Argymhellir, dan Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes canlynol, oherwydd cyfrinachedd.

11. **GWYBODAETH: COFNODION CYFRINACHOL**

Cydnabod y cofnodion cyfrinachol canlynol (copiau'n amgaeëdig) er gwybodaeth yn unig:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Is-bwyllgor Cynnal a Chadw Tiroedd | - | 23ain Tachwedd 2017 | - Rhifau Cofnod 16-21 |
| Is-bwyllgor Cynnal a Chadw Tiroedd | - | 19eg Rhagfyr 2017 | - Rhifau Cofnod 22-25 |
| Pwyllgor CSG | - | 10fed Medi 2018 | - Rhifau Cofnod 22-27 |
| Pwyllgor CSG | - | 8fed Hydref 2018 | - Rhifau Cofnod 28-34 |

12. **PRYDERON CYNGHORYDD / CAIS AM GANIATÂD I FOD YN ABSENNOL O GYFARFODYDD**

Ymhellach i gofnod rhif 77 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7fed Tachwedd 2018, derbyn adroddiad cynnydd ac ystyried cais ffurfiol am ganiatâd i fod yn absennol o gyfarfodydd.

13. **TERFYNU'R CYFARFOD**

Y Maer i ddirwyn y cyfarfod i ben.